Llywodraeth Cymru
Welsh Government




# Cynllun Ymgysylltu Tasglu'r Cymoedd

## Cyd-destun

**Mae cynllun cyflawni Tasglu'r Cymoedd, 'Ein Cymoedd, Ein Dyfodol', wedi'i ddatblygu yn sgil yr ymgysylltu parhaus â chymunedau'r cymoedd. Roedd y tasglu am gwrdd â phobl sy'n byw a gweithio yn y cymoedd er mwyn datblygu cynllun yn seiliedig ar yr hyn sydd ei angen ar bobl mewn gwirionedd, nid yr hyn mae'r Llywodraeth yn feddwl sydd ei angen arnynt.**

Mae'r cynllun yn cynnwys cynigion cychwynnol i gyflawni dros 60 o gamau yn y tri maes blaenoriaeth. Mae llawer o'r camau hyn yn gydgysylltiedig a byddant ond yn cael eu cyflawni os yw cymunedau yn cyfrannu'n llawn at y broses o'u cynllunio a'u cyflawni. Mae hyn yn pwysleisio'r angen am ymgysylltu parhaus â phobl sy'n byw a gweithio yng Nghymoedd y De a phwysigrwydd cydweithio ledled y rhanbarth.

I sicrhau bod y cynllun yn llwyddo, mae'n hollbwysig bod y tasglu yn dwyn ynghyd holl adnoddau Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid niferus. Mae'n rhaid i'r tasglu barhau i ymgysylltu â nifer ehangach o sefydliadau sector cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol; y ddwy fargen ddinesig; y GIG; ysgolion a phrifysgolion. Er mwyn cyflawni'r camau a amlinellir yn y cynllun, mae'n rhaid i bartneriaid trydydd sector a busnesau preifat weithio gyda'i gilydd.

Mae'r cynllun wedi'i rannu'n dri maes blaenoriaeth:

- **Blaenoriaeth 1:** Swyddi o ansawdd da a'r sgiliau i'w cyflawni
- **Blaenoriaeth 2:** Gwell gwasanaethau cyhoeddus
- **Blaenoriaeth 3:** Fy Nghymuned Leol.

O fewn y blaenoriaethau hyn, mae gweithgorau wedi'u sefydlu ac mae pob ffrwd waith yn cael ei harwain gan aelod o'r tasglu.

Dyma arweinwyr y ffrydiau gwaith:

- **Twf busnes a chwmnïau newydd** – Andrew Diplock
- **Cyflogadwyedd** – Fiona Jones
- **Yr economi sylfaenol** – Martin Mansfield
- **Canolfannau strategol** – John Howells
- **Canolfannau cymuned** – Andrew Morgan
- **Parc tirweddau'r Cymoedd** – Jocelyn Davies
- **Digidol** – Ann Beynon.

Yn ystod cyfnod cyflawni 'Ein Cymoedd, Ein Dyfodol', bydd yr ymgysylltu'n canolbwyntio ar weithio ar draws y llywodraeth, ynghyd â gyda chymunedau a rhanddeiliaid eraill, i ddatblygu'r camau gweithredu a nodir yn y cynllun.

## Ymgysylltu

**Mae'r cynllun ymgysylltu yn cefnogi 'Ein Cymoedd, Ein Dyfodol: Cynllun Cyflawni' ac yn nodi'r dulliau a fydd yn cael eu defnyddio i barhau i ymgysylltu a grymuso pobl mewn cymunedau ledled Cymoedd y De i sicrhau bod y tasglu yn diwallu anghenion a disgwyliadau pobl.**

Mae'r cynllun ymgysylltu yn cael ei gefnogi gan strategaeth gyfathrebu a marchnata a amlinellir isod.

## Cyfathrebu a Marchnata

**Bydd hyn yn cynnwys cynnal ymgyrch i godi proffil y Cymoedd - gan adeiladu ar falchder lleol yn y rhanbarth a gwella'r canfyddiad o'r cymoedd y tu allan i'r ardal. Un o brif ganlyniadau'r ymgyrch hon fydd cynnydd mewn mewnfuddsoddiad, twristiaeth a mudo i Gymoedd y De.**

Bydd yr ymgyrch yn ceisio ymgysylltu â phobl amrywiol o wahanol ddemograffeg, gan gynnwys:

- Busnesau lleol a phreswylwyr yn y cymoedd
- Rhanddeiliaid, gan gynnwys sefydliadau'r sector cyhoeddus a phreifat a'r trydydd sector sy'n cymryd rhan yn y gwaith o gyflawni'r cynllun
- Busnesau cenedlaethol sydd â diddordeb mewn buddsoddi yn yr ardal
- Oedolion y tu allan i'r rhanbarth a allai ystyried mudo i'r ardal.

Bydd yr ymgyrch yn codi ymwybyddiaeth o'r asedau a'r cyfleoedd sydd gan y Cymoedd i'w cynnig. Byddwn yn ymgysylltu â chymunedau, rhanddeiliaid a phartneriaid eraill i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r camau a nodir yn 'Ein Cymoedd, Ein Dyfodol'.

Byddwn yn defnyddio sianeli lleol i rannu straeon, tynnu sylw at fodelau rôl a rhannu syniadau, a bydd hyn yn helpu i rymuso cymunedau lleol ac annog balchder yn y cymoedd.

Byddwn hefyd yn gweithio gyda'r ymgyrch "Caru'r Cymoedd" i gydlynu negeseuon a sicrhau bod gwaith Tasglu'r Cymoedd yn cael mwy o sylw.

Bydd yr ymgyrch yn datblygu presenoldeb mwy amlwg yn y cyfryngau cymdeithasol ac yn gweithio gyda chwmnïau cyfryngau lleol a chenedlaethol i annog y defnydd o ddelweddau mwy positif wrth drafod y cymoedd.

Mae **Atodiad A** y ddogfen hon yn amlinellu cyfleoedd i gyfrannu at y gwaith o helpu'r tasglu i fwrw'r maen i'r wal gyda'r gwaith hwn.

## Ymgysylltu â'r Gymuned

**Mae llwyddiant y cynllun cyflawni'n dibynnu ar rymuso pobl sy'n byw a gweithio yn y Cymoedd fel y gallant sicrhau eu newidiadau eu hunain. Er mwyn cyflawni hyn, mae'n rhaid i gymunedau gael llais sy'n cael ei glywed ac yn ennyn ymateb.**

Mae'n hollbwysig nad yw'r tasglu'n dyblygu'r gwaith da sydd eisoes yn cael ei wneud mewn cymunedau ledled y Cymoedd. Byddwn yn llywio'r ymgysylltu sydd eisoes yn cael ei wneud ac yn gweithio o fewn y rhwydweithiau hyn i ddatblygu nifer o'r camau a nodir yn y cynllun cyflawni.

Yn y lle cyntaf, byddwn yn ymgysylltu â'r rhwydweithiau canlynol, ond os oes rhai nad ydym wedi eu cynnwys, cysylltwch i roi gwybod i ni am eich rhwydweithiau lleol.

Awdurdodau Lleol

Byrddau Iechyd

Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus

Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig

Cynghorau Gwirfoddol Sirol

Cynghorau Cymuned a Thref.

Bydd y tasglu'n ceisio ymgysylltu â chymunedau a defnyddio dulliau amrywiol a amlinellir isod:

- **Cyfarfodydd ffocws cyhoeddus** – byddwn yn gofyn i rwydweithiau wahodd pobl leol i gwrdd â'r tasglu i drafod camau penodol a nodir yn y cynllun cyflawni. I ddechrau, mae'r cyfarfodydd hyn yn debygol o ganolbwyntio ar gysyniad Parc Tirweddau'r Cymoedd. Bydd llwyddiant y cysyniad hwn yn dibynnu ar brosiectau sydd wedi'u creu a'u datblygu ar lefel leol. Am y rheswm hwn, mae'n rhaid i bobl leol gymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu'r cysyniad.
- **Newyddiaduraeth dinasyddion** - mae'r tasglu yn gweithio gydag ymchwilwyr ym Mhrifysgol y Drindod Dewi Sant i ddefnyddio'r adnodd SenseMaker(R) a methodoleg y Ganolfan Cynefin i ymgysylltu â chymunedau lleol. Mae'r broses hon yn ymwneud â chasglu a deall y naratif lleol drwy'r prosiectau Braenaru'r Cymoedd yng Nglynrhedynog, Glyn-nedd/ Banwen a Llanhiledd. Mae'r gymuned yn cyfranogi'n llawn at y broses hon er mwyn iddynt fod yn 'berchen' ar y data ac yn cael eu grymuso i'w ddefnyddio fel rhan o'u llwybr datblygu eu hunain.
- **Cylchlythyrau** - Mae'r tasglu wedi datblygu cylchlythyr misol yn amlinellu'r datblygiadau a'r cyfleoedd diweddaraf i gymryd rhan. Mae'r cylchlythyr yn cael ei rannu gyda'n cysylltiadau a rhwydweithiau lleol ac rydym yn gofyn i'n cysylltiadau ddosbarthu'r cylchlythyrau er mwyn cyrraedd cymaint o bobl ledled y cymoedd â phosibl.

## Ymgysylltu â rhanddeiliaid

**Er mwyn sicrhau ein bod yn gallu diwallu'r heriau a nodir drwy ymgysylltu cymunedol, mae'n hollbwysig bod y Tasglu hefyd yn ymgysylltu'n llawn â rhanddeiliaid eraill ledled y cymoedd, gan gynnwys:**

Busnesau Lleol

Awdurdodau Lleol

Darparwyr addysg a sgiliau

Byrddau Iechyd Lleol

Trydydd sector.

Mae'n rhaid i ni sicrhau ein bod yn gweithio gyda phob un o'r sefydliadau hyn gyda'n gilydd ac yn eu hannog i gydweithio i gyflawni'r camau a nodir yn y cynllun cyflawni.

Er enghraifft, os yw'r hybiau strategol arfaethedig am lwyddo mae angen i ni weithio gydag Awdurdodau Lleol, busnesau a darparwyr addysg a sgiliau. Bydd hyn yn sicrhau bod pobl leol yn gallu caffael y sgiliau sydd eu hangen arnynt ar gyfer y swyddi a fydd ar gael. Heb gydweithio fel hyn mae'r hybiau strategol yn llai tebygol o ddarparu'r manteision i gymunedau lleol yr hoffem eu gweld.

Y prif ddull o ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ystod y cyfnod ymgysylltu nesaf fydd drwy'r saith ffrwd waith a nodir yn 'Ein Cymoedd, Ein Dyfodol: Cynllun Cyflawni'.

Bydd y saith arweinydd ffrwd waith a nodir yn gweithio gyda rhanddeiliaid sydd â diddordeb yn y ffrwd waith benodol honno i roi'r camau a nodir yn y cynllun ar waith. Bydd arweinwyr yn ymgysylltu drwy ddulliau amrywiol, gan gynnwys:

- **Seminarau** – dan arweiniad awdurdodau lleol neu bartneriaid allweddol eraill i'w mynychu gan randdeiliaid sydd â'r diddordeb pennaf mewn ffrwd waith benodol
- **Cyfarfodydd un i un** – rhwng arweinwyr ffrydiau gwaith a rhanddeiliaid
- **Cyfarfodydd ag Ysgrifenyddion Cabinet a Gweinidogion perthnasol** - bydd arweinydd y ffrwd waith yn rhoi adborth beth fydd wedi ei ddysgu a'i ddatblygu gyda rhanddeiliaid
- **Cyfarfodydd â swyddogion perthnasol Llywodraeth Cymru** – bydd arweinwyr y ffrydiau gwaith yn datblygu cysylltiadau â swyddogion allweddol Llywodraeth Cymru ac yn gweithio gyda nhw i geisio dylanwadu ar bolisi Llywodraeth Cymru, yn seiliedig ar eu trafodaethau â rhanddeiliaid allanol.

## Ymgysylltu mewnol yn Llywodraeth Cymru

**Mae'r tasglu yn cael ei arwain gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae'n cael ei gefnogi yn ei rôl gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip a Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes. O fewn Llywodraeth Cymru, mae'r tasglu'n cael ei gefnogi gan fwrdd tasglu'r Cymoedd. Eu rôl yw darparu cyngor ac argymhellion clir, realistig seiliedig ar dystiolaeth er mwyn hysbysu a llywio gwaith y tasglu i helpu i gyflawni'r uchelgais a'r weledigaeth a nodir yn "Ein Cymoedd, Ein Dyfodol".**

Mae aelodau bwrdd y tasglu yn cynnwys uwch swyddogion Llywodraeth Cymru o'r adrannau a fydd yn cael yr effaith fwyaf ar lwyddiant y cynllun cyflawni. Mae nifer o aelodau allanol hefyd sy'n gallu darparu cyngor ac arbenigedd yn eu maes penodol.

Mae'r tasglu a bwrdd y tasglu yn cael eu cefnogi gan dîm tasglu'r Cymoedd Llywodraeth Cymru. Mae'r tîm yn gweithio ar draws y llywodraeth i gefnogi datblygiad y cynllun cyflawni, ac mae hyn yn cynnwys cefnogi aelodau'r tasglu yn eu gwaith ar y ffrydiau gwaith i sicrhau bod elfen gwbl trawslywodraethol i waith y tasglu.

# Atodiad A

Mae'r tasglu'n hysbysebu cyfleoedd i gymryd rhan yng ngwaith y tasglu ar ein tudalen Facebook www.facebook.com/talkvalleys/ neu ar Twitter yn hashnod #eincymoedd.

Os ydych chi wedi mynychu un o'n digwyddiadau yn y gorffennol neu wedi cysylltu â ni a rhoi'ch cyfeiriad e-bost byddwch yn cael eich ychwanegu at ein cronfa ddata ac yn derbyn cylchlythyr misol Tasglu'r Cymoedd. Mae'r cylchlythyr yn rhoi diweddariadau ar gynnydd y cynllun cyflawni a manylion digwyddiadau a fydd yn cael eu cynnal.

Rydym yn gwerthfawrogi bod llawer o bobl yn byw yng nghymunedau'r cymoedd nad oes ganddynt fynediad o bosibl at y cyfryngau cymdeithasol ac nad oes ganddynt gyfrif e-bost. Dyma pam y byddwn yn gweithio'n agos gyda lleoliadau cymunedol i hysbysebu digwyddiadau drwy ddefnyddio posteri a thrwy ledu'r gair.

Byddwn yn defnyddio partneriaethau gydag Awdurdod Lleol, sefydliadau trydydd sector a grwpiau busnes hefyd ac yn gofyn iddynt rannu gwybodaeth am ddigwyddiadau a chyfleoedd i gymryd rhan gyda'r tasglu o fewn eu rhwydweithiau presennol.

Os hoffech gymryd rhan, cael eich ychwanegu at ein cronfa ddata neu os oes gennych chi unrhyw safbwyntiau neu syniadau ynghylch ffyrdd eraill o ymgysylltu â chymunedau yn y cymoedd, cysylltwch fel hyn:

**Post:**
Tasglu'r Cymoedd
Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

**e-bost:** Eincymoedd@llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2018 WG34759 ISBN digidol 978 1 78937 165 9